# NODIADAU AM Y BROSES  CYANOTEIP

**PARATOI** *Fideo Un*

- Os ydych yn defnyddio cit cyanoteip, darllenwch y cyfarwyddiadau sydd wedi'u cynnwys. Os ydych yn gweithio gyda chemegau sych, yna defnyddiwch y cyfarwyddiadau canlynol.

- Cymysgwch 25g o Sitrad Amoniwm Fferrig gyda 100ml o ddŵr mewn jar frown, yna cymysgwch 10g o Botasiwm Ferricyanide gyda 100ml o ddŵr mewn jar frown arall, a gwnewch yn siŵr bod y caeadau yn dynn.

- Cymysgwch nes ei fod wedi toddi'n llwyr. I gael y canlyniadau gorau, gadewch y cemegau i orffwys am 24 awr cyn eu defnyddio.

Labelwch eich jariau'n glir a'u cadw o gyrraedd plant. Mae'r ddau gemegyn o wenwyndra isel iawn, serch hynny, peidiwch â chyfuno'r Potasiwm Ferricyanide gydag asidau cryf oherwydd gall ryddhau nwy gwenwynig. Defnyddiwch jariau/teclynnau sydd wedi'u cadw ar gyfer y broses cyanoteip yn unig a'u glanhau'n dda ar ôl eu defnyddio.

**PAPURAU GORCHUDDIO** *Fideo Un*

- Gwnewch bob arwyneb yn ddiogel, gwisgwch ffedog a menig oherwydd bydd yr hydoddiant yn staenio.

- Mewn golau isel / yn ystod y nos, cymysgwch rannau cyfartal o bob hydoddiant mewn jar. Cymysgwch ychydig yn unig yn ôl yr angen, gan fod ychydig yn mynd yn bell. Bydd y cemegau yn gallu cael eu storio am gyfnod amhenodol ar wahân ond byddan nhw'n dirywio unwaith y byddan nhw wedi'u cyfuno.

- Drwy ddefnyddio brwsh meddal mewn symudiadau mwytho, paentiwch y hydoddiant cyanoteip yn llorweddol dros y papur a gwnewch yr un peth yn fertigol. Peidiwch â gadael i'r hydoddiant gronni ar yr wyneb.

- Gadewch iddo sychu yn y tywyllwch nes ei fod yn hollol sych. Dylai'r papurau sychu i liw melyn-wyrdd.

**ARAMLYGU FFOTOGRAMAU** *Fideo Dau*

- Aramlygu rhwng 12-2pm sydd orau ar gyfer y golau UV cryfaf, ond wrth aramlygu ffotogramau efallai y byddwch am aramlygu'n hwyrach er mwyn cael cysgodion mwy diddorol.

- Trefnwch eich gwrthrychau yn gyflym ar ben eich papur cyanoteip. Os yw eich gwrthrychau'n ddigon bach gallwch roi pwysau arnyn nhw gyda darn o blastig neu eu cadw mewn ffrâm.

- Aramlygwch nes bod y mannau sydd wedi'u dinoethi wedi troi o felyn/gwyrdd i las ac yna i liw arian/efydd. Bydd yr amser y bydd hyn yn ei gymryd yn dibynnu ar y tywydd a'r adeg o'r flwyddyn.

- Tynnwch y print o'r golau yn gyflym drwy ei orchuddio neu ei droi drosodd a'i storio o'r golau nes ei fod yn barod i'w ddatblygu.

**ARAMLYGU PRINTIAU CYSWLLT** *Fideo Tri*

- Mewn golau isel, aliniwch eich negatif a'ch papur wedi'i orchuddio mewn ffrâm clip gan sicrhau bod y gwydr yn gorfodi'r negatif a'r papur i fod mewn cysylltiad llawn â'i gilydd. Bydd unrhyw fylchau yn arwain at ddelwedd brintiedig niwlog.

- Dinoethwch eich cyanoteip i olau haul uniongyrchol neu lamp UV. Rhwng 12-2pm sydd orau ar gyfer y golau cryfaf a dyma pryd fydd cyn lleied â phosib o gysgod.

- Dinoethwch nes bod y mannau a ddinoethwyd wedi troi o felyn/gwyrdd i las ac yna i arian/efydd.

- Tynnwch y print o'r golau yn gyflym drwy ei orchuddio neu ei droi drosodd a'i storio o'r golau nes ei fod yn barod i'w ddatblygu.

**DATBLYGU** *Fideo Dau a Tri*

- Mae'n well datblygu eich cyanoteips ar unwaith ond gellir eu cadw mewn ffolder oddi wrth y golau i'w dinoethi yn hwyrach.

- Trochwch y cyanoteip mewn dŵr neu gadewch i ddŵr sy'n llifo basio dros y ddelwedd nes bod holl olion hydoddiant cyanoteip melyn/gwyrdd sydd heb ei ddinoethi wedi'u tynnu.

- Peidiwch â rhwbio unrhyw rannau o'r print - bydd hyn yn gwanhau'r papur ac yn difrodi'r ddelwedd.

- Gadewch i'r print sychu yng ngolau'r haul, bydd y golau UV yn parhau i dywyllu lliw y mannau sydd wedi'u dinoethi.

- Pan fydd yn sych, gallwch lyfnhau'r printiau o dan fyrddau/llyfrau trwm.

Mae'r cemegau cyanoteip yn isel iawn o ran gwenwyndra, ond wrth ddatblygu neu waredu'r hydoddiant, gwnewch yn siŵr eu bod wedi'u gwanhau â digon o ddŵr.

**BLE I BRYNU**

**Handprinted.co.uk**
Cit cyanoteip £22.95 (Defnyddiwch y cod SR5PC am ddisgownt) https://handprinted.co.uk/products/cyanotype-kit?_pos=1&_sid=15d23697b&_ss=r

**Silverprint.co.uk**
Citiau cyanoteip, cemegau a phapurau a deunyddiau a baratowyd ymlaen llaw, yn amrywio o £7.00
https://silverprint.co.uk/search?q=cyanotype

**Apcpure.com**
Cemegau, poteli, offer mesur. Am symiau mwy. Dyma lle rydw i'n cael fy nghemegau.
https://apcpure.com

**Ebay.co.uk**
Am symiau bach, citiau, newydd ac ail law. Lle gwych i ddod o hyd i fargen. https://www.ebay.co.uk/

scarlettrebecca.co.uk